Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

Newyddion
News release

Dydd Gwener 9 Gorffennaf 2010

Blaenau Gwent yn ysbrydoli beirdd ifainc

Yr wythnos yma, daeth disgyblion Ysgol Gyfun Brynmawr, Blaenau Gwent, wyneb yn wyneb â'r bywyd gwyllt sy'n byw ar garreg eu drws.

Ymunodd y disgyblion â swyddogion cefn gwlad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i archwilio'r rhyfeddodau naturiol o'u hamgylch yng Ngwarchodfa Natur Leol Pwll a Choetir Beaufort Hills.

Lleolir y warchodfa natur ar gyrion Cwm Clydach, gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd a threfi Brynmawr a Beaufort i'r de. Mae hi'n ferw o fywyd gwyllt, ac yn hafan i ambell rywogaeth brin.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth, mi fydd y disgyblion yn ail-fyw eu profiadau trwy gyfansoddi cerddi yng nghwmni Caryl Parry Jones, y darlledydd a'r bardd. A phan fydd yr Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Glynebwy, mi fyddan nhw ymhlith y perfformwyr cyntaf, gan gael cyfle i ddarllen eu cerddi yn y Babell Lên.

Yn ôl Chris Engels, Swyddog Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent: "Yng Ngwarchodfeydd Natur Lleol yr ardal yma, rydych chi'n cael ymdeimlad gwirioneddol o heddwch, gyda dim byd ond natur yn eich amgylchynu – rhywbeth sy'n bwysig dros ben i'n hiechyd a'n lles yn y byd prysur sydd ohoni.

"Mi welodd y plant ryfeddodau o bob math – gwesynnod a glöynnod yn hedfan, yn ogystal â brogaod a madfallod, gyda chân yr adar yn gyfeiliant i bopeth. Cafodd pawb amser gwerth chweil wrth faeddu'u dwylo yn y pyllau dŵr, ac mi ddaethon ni o hyd i greaduriaid cudd o bob math.

"Gobeithio bod y trip wedi ysbrydoli'r plant ac wedi rhoi profiad ymarferol iddyn nhw o'r lle bendigedig sydd ar garreg eu drws."

Yn ôl Caryl Parry Jones: “Rydw i wedi bod yn ymweld ag ysgolion ers blynyddoedd i siarad am farddoniaeth ac i ysgrifennu cerddi gyda’r plant. Rydw i’n edrych ymlaen yn fawr at yr wythnosau sydd i ddod, pan gaf gyfle i helpu’r plant gyfansoddi cerddi’n sôn am y syniadau a’r teimladau sydd ganddyn nhw tuag at eu hamgylchedd lleol. Dyma ffordd wych o feithrin hyder y plant.”

Pan fydd y plant yn darllen eu cerddi ar goedd yn yr Eisteddfod ddechrau mis Awst, gobaith y Cyngor Cefn Gwlad yw y bydd Pwll a Choetir Beaufort Hills – yn ogystal â safleoedd natur gwych eraill sydd dafliad carreg yn unig o’r maes – yn ysbrydoli gweddill yr Eisteddfodwyr yn yr un modd.

Mae disgyblion Ysgol Gymraeg Brynmawr (ysgol gynradd) wedi cymryd rhan yn y fenter yn ogystal, ac mi fyddan nhwythau hefyd yn cael cyfle i adrodd eu gwaith yn yr Eisteddfod.

I gael mwy o wybodaeth am y prosiectau sydd gan Flaenau Gwent ar y gweill i gyfoethogi bioamrywiaeth, ewch i: www.blaenau-gwent.gov.uk/leisure/7679.asp <http://www.blaenau-gwent.gov.uk/leisure/7679.asp>

Mewn partneriaeth â’r Eisteddfod Genedlaethol, a chyda chefnogaeth gan yr Academi (sef y gymdeithas sy’n hybu ysgrifenwyr a llenyddiaethau Cymru), mae’r Cyngor Cefn Gwlad yn noddi’r prosiect barddoniaeth ‘natur ein cymuned’.

Caiff Gwarchodfa Natur Leol Pwll a Choetir Beaufort Hills ei rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, gan weithio’n agos â’r *Beaufort Hill Ponds and Woodland Preservation Society* ac ar y cyd â chymdeithas y cominwyr.

DIWEDD

I gael mwy o wybodaeth am y datganiad hwn, ffoniwch Helen Evans ar 07717225589 neu Brân Devey ar 02920 772 403/ 07747767443 (Swyddogion y Wasg, Cyngor Cefn Gwlad Cymru), neu anfonwch e-bost at Sioned@eisteddfod.org.

Mwy o wybodaeth am Warchodfa Natur Leol Pwll a Choetir Beaufort Hills.

Yn y gorffennol, bu llawer o gloddio am haearn ar y safle. Cafodd cronfeydd dŵr mawr eu hadeiladu er mwyn cael digon o ddŵr ar gyfer y gweithgareddau yma. Ar ôl i’r gwaith diwydiannol ddod i ben, cafodd natur gyfle i ailfeddiannu’r safle.

Heddiw, mae’r safle’n hafan i fywyd gwyllt, gan gynnwys ambell rywogaeth brin. Ymhlith y cynefinoedd ceir coetir, rhostir, dyfroedd codi, merddyfroedd agored, gwrychoedd, creigiau agored a gwahanol fathau o weiriau. Yn ôl

arolygon, mae'n debyg bod y cynefinoedd yma'n cynnal nifer o famaliaid, gan gynnwys ystlumod a dyfrgwn.

Mae pedwar deg pump o wahanol fathau o adar wedi'u cofnodi yma, gan gynnwys yr ehedydd a'r gornchwiglen. Hefyd, ceir cynefinoedd addas ar gyfer ymlusgiaid ac amffibiaid. Ymhellach, mae deuddeg o wahanol fathau o löynnod ar y safle, a naw o wahanol fathau o wesynnod.

Roedd y gwaith rheoli'n cynnwys plannu coed; cadw'r llwybrau'n glir; a gosod a chynnal llwybrau, pontydd, giatiau ac arwyddion. Ceir cefnogaeth amhrisiadwy gan y *Beaufort Hill Ponds and Woodland Preservation Society*, gan gynnwys wardeiniaid gwirfoddol ar y safle.

Cafodd y safle'i ddynodi'n Warchodfa Natur Leol fis Ebrill 2009. Mae'n adnodd pwysig i'r gymuned leol, a chaiff ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer cerdded, gwylio adar a physgota, yn ogystal â marchogaeth o dro i dro.

- **Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw'r Cyngor Cefn Gwlad, ac mae'n gweithio i gael Cymru well lle mae pawb yn trysori ein hamgylchedd naturiol ac yn ei warchod. Gellir cael mwy o wybodaeth am ein gwaith ar www.ccgc.gov.uk.**